



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Mawrth, 31 Hydref 2023 am 4.30 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

M S Tribe
Y V Jardine
M W Locke

Y Cyngorydd(wyr)

V A Holland
A J Jeffery

Y Cyngorydd(wyr)

P R Hood-Williams
J W Jones

Aelodau

Cyfetholedig(wyr)

T Beddow

Hefyd yn Bresennol

Louise Gibbard

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal

Swyddog(ion)

Teresa Edwards

Arweinydd Tîm, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o
Ryddid

Amy Hawkins

Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi

David Howes

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Liz Jordan

Swyddog Craffu

Sian Rowlands

Prif Weithiwr Cymdeithasol

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): C A Holley

Swyddog(ion): Helen St John

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23**

Roedd David Howes, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol i friffio'r Panel a dywedodd fod 2022-23 yn canolbwyntio'n fawr ar adferiad yn dilyn COVID-19. Gwasanaethau wedi'u haddasu i geisio adfer ac ymateb i newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn cyflwyno. Cafwyd ymdrechion rhyfeddol gan staff i addasu a bod mor wydn â phosibl.

Pwyntiau i'w trafod:

- Canmolodd y panel berfformiad rhagorol gan staff ond nododd lefelau uchel o salwch. Esboniwyd ei fod yn gyfuniad o amodau gwaith, demograffeg y gweithlu a staff mewn sawl maes nad oeddent yn gallu gweithio gyda rhai afiechydon. Strategaethau ar waith i geisio cadw staff yn iach ac yn y gwaith. Bydd y Cyfarwyddwr yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaethau yn ystod cyfarfod y panel yn y dyfodol.
- Holodd y panel a fydd mentrau cymdeithasol micro a macro yn cael eu hystyried fel ffordd o dynnu pwysau oddi ar wasanaethau. Esboniwyd bod angen dechrau ailfodelu'r holl wasanaethau i geisio bod ar y blaen o ran y galw am ofal critigol. Mae'r cyngor am gael cynnig lles mynediad agored mwy cyffredinol ar gyfer ei boblogaeth.
- Nododd y Panel fod ataliaeth a chymorth cynnar yn ddibynnol ar gyllid grant a phe bai'n methu, byddai'r meysydd hyn yn dioddef. Holodd y Panel a oedd unrhyw gynllun wrth gefn i oresgyn hyn. Clywodd fod pryder ynghylch y ffordd y mae cyllid cenedlaethol yn gweithio, ond nid yw'n fwy o bryder na chyfyngiad cyffredinol ar gyllid gwasanaethau cyhoeddus. Rhagwelir y bydd cyllid grant tymor byr yn arian gwastad ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar gynllun wrth gefn ar gyfer hyn.
- Mae'r adroddiad yn sôn am 'Systemau mawr rhanbarthol'. Gofynnodd y Panel beth y mae hyn yn ei olygu, ac a roddwyd ystyriaeth i nifer o awdurdodau lleol sy'n rhannu gallu arbenigol cyfreithiol. Esboniwyd nad yw'r cyngor yn canolbwyntio ar ei gyfrifoldebau ei hun yn unig o ran dod o hyd i atebion i wneud i wasanaethau cymdeithasol a'r system gofal cymdeithasol weithio. Mae angen iddo edrych yn allanol ac edrych ar y system iechyd yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn y DU ehangach. Rhoddwyd gwybod bod nifer o wasanaethau gydag adnoddau cyfyngedig ar draws y rhanbarth a fyddai'n well iddynt rannu gallu, gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu 'Y Diweddaraf am Strategaethau Lles ar gyfer Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol' at y cynllun gwaith.

6 **Sesiwn friffio ar Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid**

Rhoddodd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a swyddogion perthnasol sesiwn friffio i'r Panel am y sefyllfa bresennol gan nodi bod nifer a gallu gwaith achos wedi cynyddu, ar hyn o bryd mae ôl-groniad o geisiadau, rydym yn edrych ar gyflwyno ffurflenni cais diwygiedig i sgrinio a blaenoriaethu achosion yn fwy effeithiol, ac mae cyflwyno deddfwriaeth newydd 'Diogelu Amddiffyn Rhyddid' wedi cael ei gohirio ers nifer o flynyddoedd.

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y panel a oes unrhyw batrwm i'r nifer cynyddol a lleihaol o atgyfeiriadau ar draws cyfnodau amser. Mae cynnydd yn ystod misoedd y gaeaf gan fod mwy o bobl yn cael eu derbyn i gartrefi gofal bryd hynny. Yr her wrth symud ymlaen yw nodi tueddiadau a bod yn fwy rhagweithiol.
- Gofynnodd y panel a yw'r llyf rheolaidd o atgyfeiriadau yn debygol o fod yn sefydlog dros y tair i bedair blynedd nesaf. Esboniwyd, o ran cartrefi gofal, nid oes rheswm penodol o ran y galw cyffredinol pam y dylai'r niferoedd gynyddu dros yr amser hwn.
- Holodd y Panel a yw newidiadau yn ddemograffig y boblogaeth yn debygol o gynyddu'r galw. Esboniwyd bod y math o berson sy'n mynd i gartrefi gofal yn ddemograffig gwahanol iawn o'i gymharu â nifer o flynyddoedd yn ôl.
- O ran atgyfeiriadau, roedd y Panel am wybod a yw'r niferoedd yr ydym yn ymdrin â hwy yn Abertawe yn cyd-fynd yn fras â gweddill Cymru. Cytunodd y swyddogion i ddarparu gwybodaeth am hyn.
- Gofynnodd y panel am y sefyllfa cyn achos cyfreithiol Cheshire West yn 2014. Esboniwyd os oedd pobl yn gwrthwynebu bod mewn cartref gofal, byddent yn cael eu trosglwyddo ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), ond nad oedd pobl nad oeddent yn gwrthwynebu'n cael eu trosglwyddo. Yn dilyn yr achos yn 2014, roedd yn rhaid i bawb mewn cartref gofal, lle nad oedd ganddynt allu, gael awdurdodiad DoLS, hyd yn oed os oeddent yn hapus, ac arweiniodd hyn at fewnlifiad enfawr o geisiadau.
- Holodd y panel pwy arall y byddai'r ddeddfwriaeth newydd Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid yn ymdrin â nhw petai/pryd y daw i rym. Clywyd y bydd hefyd yn cynnwys pobl ifanc 16/17 oed, pobl sy'n byw mewn llety byw â chymorth a phobl sy'n byw yn y gymuned yn eu cartref eu hunain. Bydd yn broses wahanol iawn i'r broses DoLS. Ar gyfer pobl ifanc dan 16 oed ar hyn o bryd, mae'r cais yn cael ei wneud yn syth i'r Uchel Lys ac ni fyddai cyflwyno Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn newid hyn.

Camau Gweithredu:

- Darparu gwybodaeth bellach i'r Panel ynghylch sut mae Abertawe'n cymharu ag ôl troed rhanbarthol a chenedlaethol o ran nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer DoLS.

7 Cynllun Waith 2023-24

Trafododd y panel y cynllun gwaith.

Cofnodion y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion (Dydd Mawrth, 31 Hydref
2023)
Parhad

Symud eitem 'Diweddariad ar Raglen Trawsnewid y Gwasanaethau i Oedolion' o'r
cyfarfod ar 12 Rhagfyr 2023 i'r cyfarfod ar 30 Ionawr 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm